

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO




FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Problemau adeg ŵyna
Sut y gall rheoli anghenion
maeth mamogiaid helpu

Yn eich helpu chi i gael be chi 'm-oen'
Sut mae Cyswllt Ffermio wedi helpu Bryn
a Becca i sefydlu eu busnes llaeth defaid



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
yngŷn Ddiwydau Cwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Awdalddi Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhifyn 38 – Mawrth/Ebrill 2022 | llyw.cymru/cyswlltffermio



Rhan o ddiadell Maestanyglwyden

Mynd i'r afael â mastitis mewn mamogiaid

Safle Ffocws: Maestanyglwyden, Penybont, Croesoswallt

Swyddog Technegol: Lisa Roberts

Teitl y Prosiect: Mynd i'r afael â mastitis mewn mamogiaid

Gwella hylendid a darparu digon o le adeg wyna wedi lleihau achosion mastitis o 10% i 6.8% ym Maestanyglwyden ger Croesoswallt.

Roedd mastitis wedi bod yn un o brif achosion colledion diadell Ryan Morris, naill ai drwy ddifa cynamserol neu farwolaethau o ganlyniad i fastitis gwenwynig. O blith bron i 1,000 o famogiaid, byddai tua 10% yn cael mastitis bob blwyddyn.

“Cawsom broblemau trwy gydol y flwyddyn, er mai'r gwanwyn oedd yr amser gwaethaf,” meddai Mr Morris, a gymerodd awenau'r fferm gan ei daid bum mlynedd yn ôl, ac sydd bellach yn ffermio gyda'i bartner, Rebecca Greaves.

Galluogodd Cyswllt Ffermio arbrawf ar y fferm ochr yn ochr â milfeddygon y fferm, Cain Farm Vets, i ganfod beth yw'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y nifer uchel o achosion o fastitis, ac i helpu i lywio cynllun i leihau cyfraddau.

Fe wnaeth yr arbrawf fonitro cyfradd achosion mastitis mewn 439 o famogiaid oedd yn gyfoen ag efeilliaid o'r ddiadell sy'n wyna ym mis Mawrth. Defnyddiwyd samplu gwaed i asesu maeth y ddiadell dair wythnos cyn wyna; canfu hyn fod y deiet yn bodloni gofynion protein ac egni'r mamogiaid yn ystod beichiogrwydd hwyr. Roedd samplu llaeth wedi dangos presenoldeb y bacteria sy'n achosi mastitis, *Staphylococcus aureus* (*S. aureus*) a *Mannheimia haemolytica*. Cafodd mamogiaid eu brechu â Heptavac P, sef brechlyn clostridiol sy'n cynnwys *Mannheimia haemolytica*, a rhoddwyd pigiad atgyfnerthu bedair wythnos cyn wyna.

Gwnaeth Mr Morris nifer o welliannau i'w adeiladau er mwyn lleihau dwysedd stocio; ychwanegodd un rhan o chwech at arwynebedd y llawr i leihau'r llwyth pathogenau yn y sied, a darparodd fwy o lociau bychan pwrpasol ar gyfer mamogiaid oedd newydd wyna, fel y gellid eu symud allan o'r prif lecyn wyna i lociau glân o fewn dwy awr.

Rhodddwyd sylw manwl i lendid. Fe wnaeth yr holl staff wisgo menig hyd braich untro ar gyfer wyna, a menig byr ar gyfer tasgau megis rhoi wryn i sugno, i leihau'r risg y byddai bacteria'n lledaenu rhwng defaid ac ar dethi.

Mae Alana Jackson, o Cain Farm Vets, a sefydlodd yr arbrawf, yn priodoli hyn i gyfuniad o ffactorau – yn benodol, llai o ddwysedd stocio a gwell hylendid ar adeg wyna.

“Bydd lleihau'r llwyth pathogenau y mae mamogiaid yn dod i gysylltiad â hwy ar adeg wyna, pan fydd eu system imiwnedd yn fwyaf gwan, wedi cael effaith gadarnhaol,” mae'n cyngori.

Os nad yw mamog yn cynhyrchu digon o laeth, bydd wryn yn sugno'n amlach; gall hyn achosi niwed i'r tethi, gan gynyddu'r risg y bydd mamog yn datblygu mastitis. Bydd parhau i fwydo digon o egni a phrotein i famogiaid hyd at y cyfnod llaetha brig a hyd at chwe wythnos ar ôl troi allan hefyd wedi helpu trwy sicrhau cynhyrchiant llaeth digonol, ychwanega:

Tabl 1: Y gwahaniaeth rhwng grwpiau a oedd wedi'u brechu a grwpiau heb eu brechu

	Wedi'u brechu	Heb eu brechu	Cyfansymiau
BCS cyfartalog	3.53	2.86	
Cyfanswm	225	214	439
Nifer yr achosion o fastitis	14	16	30
% yr achosion o fastitis	6.22%	7.48%	6.8%

Mae'r adroddiad llawn ynghylch y prosiect ar gael yn llyw.cymru/cyswlltffermioeinfermydd.

“Mae mastitis yn glefyd aml-ffactor, sy'n gwneud rheolaeth yn anodd,” mae'n cyfaddef. “Mae'r arbrawf maes hwn yn dangos bod newid sawl agwedd ar y dull o reoli'r ddiadell wedi cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw 'fwled arian'.”

Brechu rhag mastitis

Roedd rhan arall o'r arbrawf yn cynnwys rhoi brechlyn i amddiffyn mamogiaid rhag mastitis a achosir gan *S. aureus*. Dywed Ms Jackson fod dadansoddiad o'r data wedi dangos nad oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol mewn cyfraddau mastitis rhwng y grwpiau oedd wedi'u brechu a'r grwpiau heb eu brechu yn yr arbrawf bach hwn, lle cafodd hanner y mamogiaid eu brechu (gweler Tabl 1). Fodd bynnag, mae'n rhybuddio rhag dod i gasgliadau ar sail hyn, oherwydd roedd yr astudiaeth yn cynnwys llai na 500 o famogiaid.

“Gall effaith gadarnhaol y brechlyn fod yn gynnil, a gallai cynnwys mwy o famogiaid yn yr astudiaeth fod wedi dangos bod cyfradd achosion mastitis mamogiaid wedi'u brechu yn sylweddol is,” meddai Ms Jackson.

Mae hi'n credu y bydd defnyddio'r brechlyn i roi hwb i imiwnedd y mamogiaid i *S. aureus* wedi helpu.

Rheoli anghenion maeth mamogiaid er mwyn lleihau problemau iechyd ar adeg wyna

Safle Arddangos: Pentre Farm, Pentrecelyn, Rhuthun, Sir Ddinbych

Swyddog Technegol: Non Williams

Teitl y Prosiect: Rheoli anghenion maeth mamogiaid er mwyn lleihau problemau iechyd ar adeg wyna

Mae bwrw'r llawes goch yn cael effaith sylweddol ar hirhoedledd a chynhyrchiant mamogiaid; mae lefelau uchel o'r cyflwr yn uniongyrchol niweidiol i berfformiad a phroffidioldeb diadell.

Yn 2020, fe wnaeth bron 10% o'r ddiadell gaedig ar Pentre Farm, Pentrecelyn, fwrw'r llawes goch. Gwnaeth hyn arwain at brosiect i dargedu achosion o fwrw'r llawes goch, ynghyd â materion iechyd eraill yn ystod cyfnod wyna, drwy ystyried achosion amlffactor y cyflwr, gyda chymorth milfeddyg annibynnol, Fiona Lovatt o Flock Health Ltd.


Gall cyflwr corfforol mamogiaid a'r cyflenwad maethol o egni a phrotein, yn ogystal â chymarebau macro-fwynau, fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at achosion o fwrw'r llawes goch cyn ac yn ystod wyna.

Mae'r prosiect yn cynnwys monitro pwysau a chyflwr corffol mamogiaid yn barhaus, a monitro cyflenwad a chydbwysedd egni a phrotein i'r mamogiaid trwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â'u cyflenwad mwynau.

Rhodddwyd newidiadau amrywiol ar waith ar Pentre Farm y llynedd. Roedd y rhain yn cynnwys annog y mamogiaid beichiog i fwyta gwair ochr yn ochr â glaswellt er mwyn cynyddu cymeriant ffibr; fe greodd hynny amgylchedd da yn y rwmen a gwella amseroedd cludo bwyd trwy'r perfedd. Roedd y mamogiaid hefyd yn cael eu bwydo

ar ben y bryn bob dydd, er mwyn iddynt orfod cerdded i fyny i gadw'n heini. Un cam ymarferol a gymerwyd ar adeg wyna oedd sicrhau bod cynffonnau wryn benyw yn cael eu tocio gan adael hyd rhesymol (hynny yw, heb fod yn rhy fyr, ac yn bendant yn ddigon hir i orchuddio'r fwlfa).

Mae'r canlyniadau hyd yn hyn wedi dangos bod y cyflenwad o fwynau allweddol yn y deiet trwy gydol y flwyddyn yn ddigonol i fodloni gofynion y mamogiaid, a bod y cymarebau calciwm a magnesiwm (Ffigwr 1) ar ddiwedd beichiogrwydd yn ymddangos yn briodol. Bydd ymchwiliad pellach i broblemau cobalt a seleniwm posibl ar y caeau silwair yn cael ei gynnal yn 2022.



Ffigwr 1: Cyflenwad magnesiwm i'r mamogiaid.

Yn 2021, gostyngodd cyfanswm yr achosion o fwrw'r llawes goch o 25% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i nodi achosion y problemau yn llawn, a dylai hynny fod o gymorth i wneud penderfyniadau yn y dyfodol o safbwynt rheoli.



Arbrawf glaswelltir yn cadarnhau fod chwalu sylffwr yn fewnbwn gwerthfawr o safbwynt economaidd

Gwelwyd enillion iach o 7:1 ar fuddsoddiad ar draws tri o safleoedd arddangos Cyswllt Ffermio a gyfranogodd mewn prosiect i ganfod effeithiolrwydd defnyddio gwrrtaith wedi'i gyfoethogi â seleniwm a sylffwr.

Dywed yr arbenigwr tir glas a phridd annibynnol Chris Duller, a ddarparodd gymorth technegol ar gyfer yr arbrawf, ei bod yn hysbys bod llawer o briddoedd yng Nghymru yn brin o seleniwm – mwyn sy'n gwneud cyfraniad pwysig at berfformiad da byw.

“Mae gan godi statws seleniwm porthiant trwy ddefnyddio gwrrtaith sy'n cynnwys seleniwm y potensial i wella cynhyrchiant, a gall fod yn ychwanegiad defnyddiol, neu'n ddevis arall yn lle rhoi mwynau ychwanegol a defnyddio bolsau,” meddai.

Mae diffyg sylffwr mewn glaswelltir hefyd yn fwy cyffredin erbyn hyn. Gall effeithio ar gnydau glaswellt, yn ogystal â lefelau protein a siwgr, a llyffetheirio cymeriant nitrogen. Mae hyn yn arwain at nitrogen gweddilliol mewn pridd, a all drwytholchi dros y gaeaf.

Dangosodd dadansoddiad fod y gwrrtaith Booster ar draws yr holl safleoedd, mewn

llystyfiant ffres a silwair, wedi cynyddu cyfradd y seleniwm, gan amlaf bum gwaith yn achos glaswellt ffres a dwy neu dair gwaith yn achos silwair.

Cofnodwyd manteision o hyd at 11% o ran cyfanswm y cnwd ar y tair fferm. Gyda chost nodweddiadol ychwanegu sylffwr at bob toriad silwair tua £7/ha, mae'r glaswellt ychwanegol a dyfwyd yn yr arbrawf hwn – 300kgDM/ha – yn werth bron i £50, o ran ynni a phrotein.

Cydweithiodd Cyswllt Ffermio â chwmni Yara ar gyfer y prosiect, ac fe wnaeth y cwmni gyflenwi ei wrteithiau Booster a Nutri Booster i'w chwalu, i'w profi yn erbyn caeau rheolyddion lle chwalwyd gwrrtaith safonol. Cynhaliwyd yr arbrawf yn ystod tymor tyfu 2021 yn Rhiwaedog, fferm biff a defaid yn y Bala, Fferm Mountjoy, fferm laeth ger Hwlfordd, a Bodwi, fferm biff a defaid ym Mhen Llŷn.

I gael rhagor o fanylion am ddeilliannau'r prosiect, trowch at:

llyw.cymru/cyswlltffermio.

Tyfu cnwd dwysfwyd protein

Porthiant dwysfwyd protein cartref yn arbed £5,588 ar gyfer tyfu a phesgi 200 o wartheg biff.

Safle Arddangos: Pantyderi, Boncath, Sir Benfro

Swyddog Technegol: Delana Davies

Teitl y Prosiect: Tyfu cnwd protein

Nod y prosiect

Mae'r cnydau sy'n cael eu tyfu ar Fferm Pantyderi yn Sir Benfro yn cynhyrchu digon o egni starts i dyfu a phesgi 400 o wartheg biff yn flynyddol. Fodd bynnag, prynid cymysgedd dwysfwyd protein 36% i wneud iawn am y diffyg protein yn y dog. Nod y prosiect hwn oedd treialu tyfu cnwd protein cartref y gellid ei gynaeafu trwy grimpio, a'i storio mewn clamp allanol yn barod i'w fwydo allan yn y gaeaf.

Ar ôl ystyried sawl opsiwn, penderfynwyd cyd-dyfu pys a ffa am y rhesymau canlynol:

- Mae pys yn darparu gorchudd tir cynharach a gwell, sy'n helpu i fygu chwyn
- Mae ffa yn darparu sgaffald cryf sy'n helpu i gadw'r cnwd yn sefyll yn ddiweddarach yn y tymor
- Mae'r ddau gnwd yn elwa o'r un dull agronomeg
- Mae eu tyfu gyda'i gilydd yn tueddu i gydamseru unrhyw wahaniaethau yn y rhywogaethau o ran amser aeddfedu
- Mae arbrofion yn dangos bod cnydau cymysg yn tueddu i gynhyrchu mwy na chnydau a dyfir ar eu pen eu hunain
- Mae'r pys yn llenwi'r bylchau aer rhwng maint gronynnau mwy y ffa yn y clamp wedi'i grimpio, ac yn helpu i greu'r amodau anaerobig gofynnol
- Caiff allbwn a maint yr elw fesur hectar eu gwella

Tyfu'r cnwd

Yn dilyn aredig, trin y tir a chwalu calch a thail, cafodd cae 8ha sy'n draenio'n rhydd ei ddrilio mewn dau gam ar 22 Ebrill, gyda'r ffa yn cael eu hau yn gyntaf ar ddyfnder o 75mm, ac yna'r pys ar ddyfnder o 50mm.

Defnyddiwyd yr Ap PGRO i gyfrifo'r cyfraddau hau cnwd llawn cywir ar gyfer y ddau gnwd:

Tabl 2: Manylion agronomeg

	Ffa Lynx	Pys Karpate
Pwysau mil o hadau (g)	535	280
Poblogaeth darged fesul m ²	50	70
% Egino	90	90
% Colledion maes	5	5
Cyfradd hadau (kg/ha)	313	229
Cyfradd hadau wirioneddol (kg/ha)	308	225

Ni chwalwyd unrhyw wrtaith ar y cnwd; yr unig driniaeth bellach a gafodd cyn y cynhaeaf oedd chwistrellu ddwywaith i drin 'chocolate spot' ar y planhigion ffa.



Cnepynnau sefydlogi nitrogen ar wreiddiau'r planhigion

Cyanaefu

Ar gyfer crimpio, mae angen i'r cnwd gynnwys rhwng 25% a 45% o leithder i sicrhau nad oes aer yn y clamp, ond gyda'r combein yn gweithio'n well gyda chnwd sychach, defnyddiwyd lleithder o 30-35% fel y targed.

Dechreuodd y dyrnu-fedi ar 3 Medi, gyda chyllell ochr wedi'i gosod ar y combein i helpu i gasglu'r pys. Heblaw am orfod glanhau'r rhidyllau'r combein ar y diwrnod cyntaf (pan oedd y cnwd ychydig yn llaith o amgylch y pentir), cafodd y cnwd ei ddyrnu-fedi'n rhwydd.

Prosesodd contractwr crimpio lleol y cnwd, gan roi 4 litr y dunnell o CrimpSafe 300 wedi'i wanhau 50:50 â dŵr, a chafodd y clamp ei rollo a'i selio.

Cnydau a dadansoddiadau

Cynhyrchodd y cnwd 5.25t/ha o bys a ffa a 22 o fynau gwrysg/ha.

Tabl 3: Dadansoddiad o'r cnwd

	Pys/ffa	Gwrysg
% Deunydd Sych (DM)	61.7	32.5
ME (MJ/kg DM)	13.6	7.5
Protein crai (%)	26.6	8.0
Gwerth-D (%)	93.4	47



Pys a ffa newydd eu crimpio

Costau'r cnwd

Tabl 4: Costau'r cnwd

	Costau'r ffermwr	Costau contractwr (yn cynnwys rhentu tir)
Costau tyfu (£/ha)	432	917
Cost cyanaefu (£/ha)	100	100
Crimpio ac ychwanegion (£/t)	24	24
Cost cynhyrchu (£/t) (llai gwerth y gwrysg)		
@ Pwysau ffres 62% DM (£/t)	84	161
@ Cyfwerth dwysfwyd 86% DM (£/t)	117	223

Er mwyn cymharu, mae cost prynu ffa i mewn ar hyn o bryd yn £275 wedi'u dosbarthu a'u malu.

Dognau porthiant

Lluniwyd dognau ar gyfer gwartheg biff â'r un egni a phrotein â deietau'r gaeaf blaenorol, a dangosir yr arbedion costau ar gyfer bwydo'r pys a'r ffa yn Nhabl 5.

Tabl 5: Arbedion costau

	Dogn tyfu		Dogn pesgi	
Blwyddyn	2020	2021	2020	2021
Cost/pen/diwrnod (£)	1.35	1.29	2.39	2.18
Arbedion costau (£)*	1,800		3,788	

*Arbedion costau yn seiliedig ar 200 o wartheg yn cael eu bwydo am bum mis ar y dogn tyfu a thri mis ar y dogn pesgi.

Mae gwenith gaeaf wedi dilyn y cnwd pys a ffa, ac amcangyfrifir y bydd capasiti sefydlogi nitrogen y cnwd codlysiâu yn cyfrannu hyd at 100 kg/ha o nitrogen gweddilliol ar gyfer y cnwd grawn.

I gael mwy o wybodaeth am y prosiect hwn, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd.

Defnyddio dyfais electroleiddio hydrogen i leihau allyriadau ar y fferm

Mae Coleg Glynllifon wedi gosod dyfais electroleiddio hydrogen (HE) ar ddau o dractorau'r fferm i geisio sicrhau gostyngiad o 80% mewn allyriadau carbon a 20% yn y defnydd o danwydd.



Myfyrwyr amaeth a pheirianneg Grŵp Llandrillo Menai

Gellir ôl-osod y ddyfais fach ar dractorau hŷn neu gerbydau disel fferm, megis beiciau cwad neu gerbydau 4x4. Cyflawnwyd y broses osod gan Water Fuel Engineering Ltd ar John Deere 6630, a chymerodd y gwaith ychydig yn llai na thair awr. Roedd angen rhywfaint o addasu ac ychwanegu braced pwrpasol i osod y ddyfais HE o dan y cab. Gosodwyd yr ail ddyfais gan yr adran peirianneg amaethyddol yng ngweithdy'r coleg ar dractor McCormick CX95 a ddefnyddir gyda'r wagen borthi i borthi'r fuches laeth 200 o wartheg.

Am bob 60 awr o waith tractor, mae ar y ddyfais HE angen 300ml o ddŵr distylliedig, sy'n dod o Halen Môn fel sgil-gynnyrch eu proses gweithgynhyrchu halen môr. Mae hyn yn sicrhau cyflenwad cyson digonol o ddŵr distylliedig parod, sy'n hanfodol ar gyfer ffurfio'r nwy hydro-ocsi sydd wedyn yn cael ei ddanfôn i'r cymeriant aer.



Mae staff peirianneg y coleg wedi bod yn monitro effaith gynnar y ddyfais ar y ddau dractor i sicrhau nad oes unrhyw sgil-ffeithiau negyddol i weithrediadau arferol. Bydd yr effaith ar allyriadau a thanwydd yn cael ei fonitro yn erbyn gwybodaeth waelodlin ar gyfer y peiriannau, a bydd y canlyniadau ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae Fferm Glynllifon a Grŵp ehangach Coleg Llandrillo Menai yn dymuno ymgorffori tanwydd hydrogen ymhellach yn y cyrsiau technegol amrywiol a gynigir, gyda'r bwriad o ddod yn ganolfan flaenllaw ar gyfer dysgu am danwydd hydrogen yng ngogledd Cymru. Mae myfyrwyr amaethyddiaeth a pheirianneg ifanc yng Nglynllifon wedi bod yn ymwneud â gosod, monitro ac asesu'r ddyfais, sy'n rhoi cipolwg gwerthfawr ar dechnolegau newydd posibl i helpu i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd.

Rhaglen troshadu yn ceisio gwella bioamrywiaeth y glastir, ffrwythlondeb y pridd a'r defnydd o laeth o borthiant

Safle Ffocws: Gate Farm, Llandysul, Sir Faldwyn

Swyddog Technegol: Simon Pitt

Teitl y Prosiect: Gwahanol ddulliau sefydlu o dros-hadu gan ddefnyddio cymysgeddau aml-rywogaeth a lleiafswm o driniaeth tir fel dull sefydlu ar gyfer defnyddio cynydu bresych fel cnwd toriad mewn gwyndonnydd

Gyda chymorth Helen Mathieu o gwmi Germinal, mae'r ffermwr Ilaeth Glen Lloyd o Gate Farm wedi bod yn cynnal rhaglen o droshadu ei ddaliad organig 350 erw yn Abermiwl, ger y Drenewydd, i gyflwyno mathau newydd o laswellt, a chymysgeddau codlysiau a pherlysiau. Mae'r fferm yn amrywio o 500 i 1000 troedfedd, sy'n cynnwys llwyfan pori o 180 erw, lle mae'n pori ei 170 o fuchod godro a 110 o loeau.

Yn ystod haf/hydref 2021, ymgwymerwyd â strategaeth ail-hadu (gan gynnwys troshadu), a oedd yn cynnwys llyriad, ysgellog, PRG, meillion gwyn a chnydau bresych, i wella bioamrywiaeth glaswelltir a strwythur a ffrwythlondeb y pridd, er mwyn cynyddu'r cynnyrch a'r defnydd o brotein porthiant cartref yn y llwyfan pori organig. Arwyddocâd y prosiect yn Gate Farm yw bod angen sefydlu a rheoli cynydu heb gymorth gwrtaith artificial nac unrhyw bladdwyr neu chwynladdwyr cysylltiedig. Mae gwahanol rywogaethau ac amrywogaethau wedi'u



sefydlu i fonitro eu potensial mewn sefyllfa organig a'u buddion tymor canol a hirdymor ar iechyd a strwythur pridd.

Yn ôl Helen Mathieu, mae'n ymddangos bod troshadu rhygwellt parhaol wedi cael rhywfaint o lwyddiant, a hefyd felly yn achos rhai o'r meillion – er bod y perlysiau a gyflwynwyd yn fwy gwasgarog, ac yn ymddangos mewn rhannau o gaeau lle'r oedd gorchudd y ddaear yn is na 70% yn unig.

Ynghyd â sefydlu rhywogaethau, agwedd arall ar brosiect y safle ffocws oedd gwerthuso'r potensial i ddefnyddio cynydu bresych hybrid (croesiad o r \hat{e} p a ch \hat{e} l) fel cnwd toriad wrth adnewyddu glaswelltir trwy ddull min-tiliau.

Mae Helen yn ystyried bod y cnwd bresych yn dda ar gyfer fferm organig – ac mae'n rhagweld y bydd y cnwd yn Gate Farm tua 3t/ha. Byddai pob hectar yn porthi 40 o heffrod cyflo yn pwysu 400kg am tua naw diwrnod:

“Yn ddelfrydol, dylid defnyddio system pori sribedi yn y cae a rhoi gwellt allan mewn da bryd, gan ganiatáu tua 4 kg o wellt y pen y dydd. Dylid rhoi mwynau ychwanegol iddynt hefyd, naill ai trwy gyfrwng bolysau neu'n ad lib yn y cae.”

Nod y prosiect yw monitro ansawdd ac argaeledd porthiant yn ystod gwanwyn 2022, yn ogystal ag arsylwi sut mae'r gwahanol rywogaethau wedi effeithio ar gyflwr y pridd cyn troi allan.

Beth yw effaith gwahanol ddietau ar ansawdd porc?

Safle Ffocws: Fferm Forest Coalpit, Y Fenni

Swyddog Technegol: Dafydd Owen

Teitl y Prosiect: Pa effaith gaiff diet gwahanol ar ansawdd porc?

Yn 2021, sefydlodd Cyswllt Ffermio, Menter Moch Cymru a Fferm Forest Coalpit arbrawf i gymharu ansawdd cig moch wedi'u pesgi mewn padog llawn porthiant gyda moch wedi'u pesgi mewn padog moel. Roedd proffil asid brasterog y porc a gynhyrchwyd o ddi-ddordeb arbennig.

Dim ond hesbinychod a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arbrawf, felly nid yw gwahaniaethau rhyw yn effeithio ar y set ddata. Cafodd y moch eu paru a'u rhannu'n grwpiau a neilltuwyd ar hap:

Grŵp 1 = 10 hesbinwch – Bwyd safonol a phadog moel

Grŵp 2 = 9 hesbinwch – Bwyd safonol a phadog â phorthiant

Cyfyngwyd ychydig ar y dwysfwyd i annog y moch i fwyta'r porthiant. Cyfyngwyd ar y dwysfwyd yn achos y ddau grŵp, ac roedd 2kg/diwrnod/pen ar gael i'r anifeiliaid.



Lauren Smith a Kyle Holford, Fferm Forest Coalpit

Casgliadau

Roedd prif ganfyddiadau'r asesiadau a gynhaliwyd yn dangos bod y porc a fagwyd mewn padog llawn porthiant yn cynnwys cynnydd sylweddol mewn asid α -Linolenig (ALA), o'i gymharu â'r porc a fagwyd mewn padog moel. Ni all moch syntheseiddio ALA, felly mae'r cynnydd yn yr asid brasterog hanfodol n-3 neu omega-3 yn ganlyniad uniongyrchol i ychwanegu porthiant at y deiet. Mae manteision niferus i'r treuliwr dynol yn sgil bwyta cynhyrchion sy'n cynnwys ALA (er enghraifft, atal trawiad ar y galon, gostwng pwysedd gwaed uchel a cholesterol a gwrthdroi caledu'r pibellau gwaed).

Mae astudiaethau wedi dangos, trwy drin porthiant (hynny yw, ychwanegu olew pysgod/planhigion/hadau), ei bod hi'n bosibl gwneud porc yn fwyd swyddogaethol oherwydd cynnwys omega-3 ac omega-6. Mae angen gwneud rhagor o waith i weld a all gwahanol fathau o wndwn porthiant wella ansawdd y cig ymhellach.

Mae maint sampl yr asesiadau yn gymharol fach, sef deg anifail mewn un grŵp a naw yn y llall. Er mwyn dod i gasgliadau pellach ynghylch effaith porthiant ar ansawdd cig, byddai angen set ddata fwy.

Beth yw carbon pridd?

Dr William Stiles, Hwb Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio


Yn y sector rheoli tir, rhoddir llawer o sylw i garbon ac i ddulliau rheoli posibl a fydd yn hyrwyddo dal a storio carbon er mwyn lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, trwy ddal nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer (yn enwedig CO₂).

Mae pridd yn cynnwys elfennau niferus, gan gynnwys mwynau, deunydd organig, a bylchau rhwng y deunyddiau hyn, wedi'u llenwi â dŵr neu aer ('bylchau mandyllau'). Mewn pridd gweithredol (sef pridd nad yw'n cael ei effeithio gan aflonyddwch neu gywasgiad), mae tua 50% yn fylchau mandyllau, gyda'r 50% arall yn cynnwys cyfansymiau amrywiol o fwynau neu ddeunydd organig, sy'n amrywio rhwng mathau o bridd.

Pan fyddwn yn sôn am garbon pridd, mae gennym ddi-ddordeb arbennig yn elfen deunydd organig pridd, gan mai dyma'r brif gronfa garbon. Deunydd organig yw elfen fiolegol y pridd, ac mae'n gymysgedd o organebau byw (anifeiliaid pridd, gwreiddiau planhigion, microbiog) a deunydd marw mewn gwahanol gamau o ddatdelfennu.

Mae dal a storio carbon yn y pridd yn digwydd dros amser. Mae'n dechrau pan fydd planhigion yn cymhathu carbon i'w biomas trwy ffotosynthesis; pan fyddant yn marw, bydd y deunydd organig hwn yn dechrau dadelfennu. Yn y pen draw, bydd llawer o'r deunydd hwn yn cael ei fwyneiddio a'i ddychwelyd i'r atmosffer fel rhan o'r cylchred garbon naturiol, ond bydd rhannau ohono'n cyrraedd cyflwr lle mae'n gallu gwrthsefyll dadelfennu pellach. Mae'r deunydd hwn, y cyfeirir ato'n aml fel 'hwmws', yn cynrychioli'r elfen o ddeunydd organig y pridd sy'n sefydlog yn y tymor hir, a gall barhau am amser hir yn y pridd.

Mae deunydd organig pridd (ac felly carbon pridd) yn cynyddu pan mae'r deunydd organig sydd wedi'i fewnbynnu yn fwy na'r gyfradd dadelfennu. Yn gyffredinol, mewn system sefydlog, mae cyfradd mewnbyn uwch yn arwain at gyfradd uwch o allbwn, felly gall cyfraddau uchel o ddal a storio fod yn heriol i'w cyflawni. Serch hynny, po fwyaf yw cyfanswm y deunydd organig sy'n cael ei fewnbynnu i'r pridd, y mwyaf yw'r potensial ar gyfer dal a storio yn y pen draw. Mae deunydd organig pridd yn gwbl hanfodol ar gyfer iechyd a gweithrediad y pridd. Mae'n effeithio'n gadarnhaol ar briodweddau ffisegol, cemegol a biolegol y pridd, gan hybu ystod o fanteision cynhyrchu. Felly, mae mabwysiadu rheolaeth sy'n gwella deunydd organig pridd yn cynnig ystod eang o fanteision.



Ffigur 2: Y broses o gronni deunydd organig yn y pridd



Becca Morris a Bryn Perry

Pan y'ch chi'n gwybod be chi 'm-oen', fe wnaiff Cyswllt Ffermio eich cefnogi ar hyd y daith!



Mae Bryn Perry a'i bartner Becca Morris, y ddau yn eu 30au cynnar, yn cadw diadell o tua 120 o famogiaid Dwyrain Ffrisia – brid sy'n enwog am ansawdd eu llaeth – ar dyddyn sy'n eiddo i'r cyngor, Fferm Wernllwyd, ger Hwlffordd, lle symudon nhw yn gynnar yn 2021.

Nid oedd gan yr un ohonynt gefndir ffermio, a buont yn byw ym maestrefi Southampton cyn codi pac a symud i Sir Benfro, lle magwyd Becca.

"Rydyn ni wedi gorfod dysgu'n gyflym, ond ni fyddem yn newid dim, ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at weld beth a ddaw yn sgil y dyfodol!", meddai'r ddau.

Mae diwydiant godro defaid y DU yn dal yn gymharol newydd, ond mae'r pâr entrepreneuraid hwn yn manteisio ar y

farchnad hon sy'n tyfu'n gyflym, mewn mwy nag un ffordd. Diolch i ystod o wasanaethau cymorth gan Cyswllt Ffermio, mae Bryn a Becca wedi sefydlu cydweithrediadau gyda nifer o ffermwyr yng ngorllewin Cymru sydd yr un mor uchelgeisiol. O ganlyniad, maent eisoes yn prosesu llaeth i'w droi yn amrywiaeth o gawsiau llaeth mamogiaid Cymreig arbennig tebyg i gaws feta, halloumi, glas a manchego, ac yn ddiweddar maent wedi lansio eu brand eu hunain o fodca madd llaeth mamogiaid o'r enw 'Ewenique'.

“Yn hollbwysig, cawsom lawer iawn o gymorth gan Cyswllt Ffermio, ac fe wnaeth hynny fy helpu i ddatblygu fy sgiliau fel person busnes a ffermwr defaid, a cawsom hefyd gymorth trwy'r rhaglen Mentro, a'n galluogodd i sefydlu ein menter gyntaf ar y cyd gyda'r cynhyrchwyr llaeth defaid adnabyddus Nick a Wendy Holtman, sy'n berchen ar Defaid Dolwerdd yng Nghrymlych”, meddai Bryn.



Bryn Perry

Roedd taith datblygiad personol Bryn Perry yn cynnwys:

Rhaglen Mentro – cymorth wedi'i ariannu'n llawn a all gefnogi tîrfeddianwyr sy'n dymuno gadael neu gamu'n ôl o ffermio a'u cyflwyno i newydd-ddyfodiaid neu ffermwyr ifanc sydd am gychwyn ffermio.

Gwasanaeth Cyngori – cyngor busnes, ariannol a thechnegol, gyda chymhorthdal o hyd at 80% ar gyfer ceisiadau unigol ac wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer ceisiadau grŵp. Rhoddodd Bryn argymhellion ar waith i sefydlu system pori cylchdro newydd.

Ychwanegodd, heb gymorth Cyswllt Ffermio, a theulu ffermio cefnogol iawn o Drewyddel “a ddysgodd bopeth rwy'n ei wybod i mi am reoli uned laeth fawr, gynaliadwy”, ni fyddai ble mae heddiw.

I glywed Bryn a Becca yn sôn am sut y gwnaethant wireddu eu breuddwyd wledig, a darllen y stori lawn am eu cynlluniau at y dyfodol, trowch at:

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Bwtcamp Busnes – cwrs byr preswyl wedi'i ariannu'n llawn sydd wedi'i gynllunio i roi'r hyder, y sgiliau a'r cymhelliant i newydd-ddyfodiaid i amaethyddiaeth i fanteisio ar gyfleoedd, datblygu busnesau effeithlon ac adeiladu gyrfaedd llwyddiannus.

Academi Amaeth – rhaglen datblygiad personol Cyswllt Ffermio ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn niwydiannau'r tir.

Agrigôp – rhaglen dysgu gweithredol Cyswllt Ffermio wedi'i hariannu'n llawn sy'n dod ag unigolion o'r un anian at ei gilydd i ddatblygu a gwella syniadau busnes.

Storfa Sgiliau – cyfleuster storio data ar-lein diogel Cyswllt Ffermio sy'n cofnodi holl gyflawniadau academiaidd, proffesiynol ac ymarferol Bryn, gan ei alluogi i gynllunio ei ddilyniant gyrfa yn y dyfodol.

I ganfod sut y gall Cyswllt Ffermio eich cefnogi, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu ffoniwch Ganolfan Gwasanaethau Cyswllt Ffermio ar **08456 000 813**.

Fel arall, trowch at:

www.llyw.cymru/cyswlltffermio



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success

O'r chwith: Anthony Griffiths (Fferm Tŷ Newydd) a Matt Goodall (GWCT), yn sefyll wrth ymyl y bwced cymysgedd hadau adar gwyllt, gyda'r cnwd gorchudd y tu ôl iddynt.

Menter Adar ar Dir Fferm Cymru

Mae dau ffermwr o ogledd Cymru yn gobeithio y bydd tyfu cynydau gorchudd ar eu ffermydd fel rhan o brosiect EIP yng Nghymru yn dangos ei effeithiolrwydd fel dull o warchod adar cân ar dir fferm.

Mae Cymru'n enwog am ei gallu i dyfu glaswellt, sy'n dominyddu'r rhan fwyaf o'n tirwedd ffermio. Er bod hyn yn ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu da byw, nid yw'n darparu llawer o ran bwyd na chynefin ar gyfer adar cân tir fferm – yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, pan fydd bwyd yn brin.

Mae llawer o ffactorau wedi cyfrannu at y gostyngiad ym mhoblogaethau adar cân dros y degawdau diwethaf; fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos mai marwolaethau dros y gaeaf yw un o'r prif resymau dros eu dirywiad.

Mae Matt Goodall, cynghorydd i'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt (GWCT), sy'n arwain y prosiect, yn esbonio bod cynydau gorchudd sy'n cynhyrchu hadau i adar i fwydo arnynt yn ystod misoedd y gaeaf wedi'u profi i fod

yn effeithiol o ran cynyddu niferoedd adar tir fferm ar ffermydd â'r. Fodd bynnag, er bod cynlluniau fel Glastir yn cynnig cnydau gorchudd er budd adar gwyllt fel opsiwn, mae nifer y ffermwyr sy'n manteisio ar hynny wedi bod yn isel.

Gyda'r symudiad tuag at gymhorthdal i gyflenwi nwyddau cyhoeddus ar ffermydd, nod y prosiect hwn yw dangos sut y gellir cyflawni cadwraeth adar gwyllt ar ffermydd lle ceir porfa yn bennaf.

Mae Anthony Griffiths, o Fferm Tŷ Newydd, Trefnant yn Sir Ddinbych, yn un o'r ddau ffermwr sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

"Mae'n fferm laeth organig 480ha, yn godro tua 950 o wartheg ar system sy'n lloea yn y gwanwyn. Rydym wastad yn edrych ar ffyrdd o greu cynefinoedd mwy amrywiol ar rannau o'r fferm," meddai Mr Griffiths.

"Trwy sefydlu'r cnydau gorchudd hyn ar ddwy fferm (y llall yw Fferm Gilar, ger Pentrefoelas, sy'n fferm ddefaid fynydd draddodiadol), rydym yn gobeithio dangos costau realistig sefydlu cnydau gorchudd ar dir a all fod yn heriol. Rydym hefyd yn gobeithio dangos y fantais ychwanegol o gael cnwd eilflwydd o gymharu â'r opsiwn cnydau grawn o fewn Glastir sy'n para blwyddyn," meddai Mr Goodall.

Yn Nhŷ Newydd, heuwyd tri chae 1ha o gnydau gorchudd eilflwydd yn haf 2021, yn cynnwys amrywiaeth enfawr o blanhigion fel rhuddygl olew, cydillin, had llin a mwstard. Mae'r rhain oll yn darparu hadau i helpu adar cân i aeafu a bod mewn cyflwr da ar gyfer y tymor bridio, gan gynyddu'r boblogaeth. Roedd y cnwd hefyd yn cynnwys cêl ac iwtopia, a fydd yn blodeuo yn y gwanwyn, gan ddarparu bwyd i bryfed peillio megis cacwn a phryfed eraill.

"Mae cnwd eilflwydd nid yn unig yn haneru eich cost sefydlu, ond hefyd yn cynnig

buddion eraill i fioamrywiaeth y byddech yn eu colli pe bai'n rhaid i chi ailsefydlu'r cnwd bob blwyddyn," meddai Mr Goodall.

Mae bwcedi bwydo ychwanegol hefyd wedi'u gosod ger y cnwd. Mae'r bwcedi wedi'u llenwi â hadau megis gwenith, calonnau blodyn yr haul du a blodyn yr haul, had llin a miled. Yn y pen draw, bydd yr hadau yn y cnwd gorchudd i gyd yn cael eu bwyta, felly mae'r bwcedi hadau yn darparu byffer i sicrhau digon o fwyd yn ystod y cyfnod 'bwllch newynog' cyfan, sef rhwng mis Rhagfyr a diwedd mis Ebrill.

"Mae'n bwysig cofio nad yw'r bwcedi'n unig yn ddigon, gan nad yw hynny'n darparu'r cynefin sy'n cynnal y fioamrywiaeth sydd ei angen er mwyn i'r adar hyn ffynnu," meddai Mr Goodall.

"Mae'n amlwg wrth gerdded drwy'r cnydau gorchudd bod llawer mwy o weithgarwch adar o gymharu â chaeau o laswellt," meddai Mr Griffiths.

"Mae'n debygol y bydd pob cae o fudd i'r boblogaeth adar o fewn radiws o 0.5 km, ond pe gallai mwy o ffermydd ledled Cymru ddarparu rhyw fath o gnwd gorchudd ar rannau o'u fferm, yna byddent yn dechrau cysylltu," dywed Mr Goodall.

Dros fisoedd y gaeaf, mae arolygon adar wedi'u cynnal ar draws y ddwy fferm i fonitro newidiadau yn y boblogaeth adar. Bydd y prosiect yn parhau tan ddechrau 2023.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect EIP hwn, trowch at dudalen EIP yng Nghymru ar wefan Cyswllt Ffermio:
llyw.cymru/cyswlltffermio



Taenu gwrrtaith

Rheoliadau

Rheoli Llygredd Amaethyddol

Cynlluniau Rheoli Maetholion

O 1 Ionawr 2023, bydd taenu gwrrtaith yn gofyn am Gynllun Rheoli Maetholion i fodloni gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Cynlluniau Rheoli Maetholion (NMP)

Defnyddir y Cynllun Rheoli Nitrogen (NMP) i ddangos eich cydymffurfriad â'r rheoliadau, ond mae hefyd yn arf pwysig ar gyfer rheoli'r defnydd o wrteithiau nitrogen ar eich daliad. Gall hyn wella twf cynydu, lleihau'r defnydd o wrtaith wedi'i weithgynhyrchu, a lleihau'r risg o lygredd.

Rhaid cwblhau'r NMP cyn chwalu unrhyw deiliau organig neu wrteithiau wedi'u gweithgynhyrchu ar gnwd, ac yn achos glaswelltir, cyn 1 Ionawr bob blwyddyn.

Uchafsymiau nitrogen yn ôl y math o gnwd

- Ni chaiff cyfanswm y nitrogen a roddir ar gnwd (gan gynnwys glaswelltir)

o wrteithiau organig neu wrteithiau wedi'u gweithgynhyrchu fod yn fwy na'r uchafsymiau a nodir yn y rheoliadau.

Uchafsymiau nitrogen ar gyfer chwalu teiliau

- Ar draws y daliad cyfan, ni chewch chi chwalu mwy na 170kg o nitrogen yr hectar o bob tail da byw, gan gynnwys carthion uniongyrchol yr anifeiliaid sydd ar y tir a'r tail a chwalar ar y tir o fewn unrhyw flwyddyn galendr (yn dechrau ar 1 Ionawr).
- Rhoddir cyfyngiad o 250kg fesul hectar unigol ar chwalu tail organig am unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

Cofnodi chwalu teiliau a gwrteithiau

- O fewn wythnos, bydd angen i chi gofnodi gwrteithiau a gaiff eu chwalu ar unrhyw gnwd, gan gynnwys glaswelltir. Dylech gynnwys gwybodaeth megis y math a chynnwys nitrogen, manylion yr arwynebedd y cafodd ei chwalu arno, a'r cyfanswm a dyddiad ei chwalu.
- Mae eithriadau ar gyfer cofnodi chwalu teiliau organig ar gael i ffermydd sydd â mewnbynnau maethol isel. Gweler y canllawiau am fanylion ynghylch eithriadau.

Ystyriaethau eraill

- Mae'r Cyflenwad Nitrogen yn y Pridd yn cyfeirio at faint o nitrogen sydd ar gael yn y pridd i'w ddefnyddio gan gnwd. Mae'n cael ei ddylanwadu gan fathau o bridd, cnydau blaenorol, defnydd blaenorol o dail a gwrtaith, a glawiad. Mae angen y wybodaeth hon wrth ddatblygu cynlluniau.
- Gall cynlluniau i chwalu teiliau effeithio ar eich gofynion storio tail neu slyri.
- Bydd angen i chi ystyried y nodweddion a nodir yn eich map risg, a sut mae'n effeithio ar y tir sydd ar gael i chi ar gyfer chwalu teiliau organig.
- Efallai y byddwch yn ystyried allgludo unrhyw deiliau sydd dros ben o'ch daliad, neu fewngludo teiliau ychwanegol, os ydych wedi nodi unrhyw ddiffygion maeth. Mae angen cofnodi mewngludo ac allgludo teiliau hefyd.
- Efallai y bydd angen i chi ystyried effaith y cyfnodau gwaharddedig ar gyfer chwalu ar eich NMP; mae hyn yn cynnwys cyfnodau sy'n ymwneud â nitrogen

wedi'i weithgynhyrchu (sy'n gymwys o 1 Ebrill 2021 ymlaen), neu'r cyfnodau sy'n ymwneud â theiliau organig (sy'n gymwys o 1 Awst 2024 ymlaen).

Cadw cofnodion

- Mae Llywodraeth Cymru yn darparu llyfr gwaith digidol a thempledi o fewn y canllawiau ar gyfer cofnodi Cynlluniau Rheoli Maetholion; fodd bynnag, gallwch gadw eich cofnodion eich hun, ar yr amod y bodlonir meini prawf y rheoliadau.
- Rhaid storio copïau o Gynlluniau Rheoli Maetholion am o leiaf bum mlynedd, a rhaid sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio os gofynnir am hynny.

Mae Canllawiau Manwl i Ffermwyr a Rheolwyr Tir a dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

llyw.cymru/rheoli-tir

Cymorth Cyswllt Ffermio

Mae gan Cyswllt Ffermio amrywiaeth o gymorth a all eich cynorthwyo â'ch cynlluniau i reoli maetholion ac optimeiddio twf cnydau. Mae hyn yn cynnwys y Gwasanaeth Cyngori, cymorthfeydd un ac un, modiwlau e-ddysgu a hyfforddiant achrededig. I gael rhagor o wybodaeth, trowch at wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio

Llinell Gymorth y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Mae Llinell Gymorth Rheoli Llygredd Amaethyddol benodedig, sy'n cael ei rhedeg gan ADAS, ar gael i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir gyda gofynion y Rheoliadau. Rhif y llinell gymorth yw **01974 847000**.

E-DDYSGU

Mawrth MODIWLAU'R MIS

Mae ein rhaglenni e-ddysgu rhyngweithiol yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau presennol a sgiliau newydd, caffael rhagor o wybodaeth, a gwella arferion gwaith yn eich busnes.

Cwblhewch un neu ragor o'r modiwlau e-ddysgu busnes canlynol o gysur eich cartref eich hun, ar amser sy'n gyfleus i chi:



E-DDYSGU

- Ffermio Cydweithredol a Ffermio Cyfran
- Meincnodi ar Ffermydd
- Arallgyfeirio Busnesau Ffermydd
- Adnoddau Dynol Ffermydd
- Iechyd a Diogelwch
- Cynllunio a Chyllid
- Technoleg Fanwl Gywir mewn Amaethyddiaeth
- Troseddu yng Nghefn Gwlad – Diogelu eich Fferm
- TAW

I weld y rhestr lawn o fodiwlau a'r canllaw cynhwysfawr i ddefnyddwyr ar gwblhau modiwlau e-ddysgu, trowch at llyw.cymru/cyswiltffermiosgiliauhyfforddiant



“Mae'n ffordd mor hawdd o gael mwy o wybodaeth, wedi ei gyflwyno ar yr union lefel gywir ac rydych yn dysgu ar eich cyflymder eich hun.”

Wyn Williams, Llanfair Caereinion

Datblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes...

Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau ar agor o 09:00 ar ddydd Llun, 2 Mai hyd at 17:00 ar ddydd Gwener 27 Mai 2022.

Ledled Cymru, mae'r busnesau fferm a choedwigaeth mwyaf blaengar yn manteisio ar yr ystod eang o gyrsiau hyfforddiant, wedi'u hariannu hyd at 80%, sydd ar gael i fusnesau ac unigolion sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio.

Mae dros 80 o gyrsiau hyfforddiant ar gael gyda rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy wedi'u lleoli ledled Cymru.

Yn ogystal, rydym yn falch o gyhoeddi bod wyth cwrs newydd wedi'u cynnwys:

- **Sganiau gwartheg** – wedi'i anelu at bobl nad ydynt yn filfeddygon sy'n dymuno dysgu'r ddawn o ganfod beichiogrwydd at ddefnydd eu fferm eu hunain neu fel menter fasnachol.
- **Tryc codi gwrthbwysio** – deall sut i weithredu tryc codi gwrthbwysio yn ddiogel.
- **Tynnu Trelar: ar y ffordd** – wedi'i gyflwyno yn dilyn y newidiadau o ran deddfwriaeth tynnu trelars.
- **PA1 + PA2f** – dysgu sut i reoli chwyn gyda weed wiper, a ddefnyddir gyda cherbyd pob math o dir (ATV).
- **Ymwybyddiaeth, archwilio a rheolaeth amgylcheddol i'ch busnes** – nod y cwrs yw rhoi'r offer i chi i'ch galluogi i gwblhau archwiliad amgylcheddol o'ch fferm neu fusnes.
- **Arolygu ac archwilio coed sylfaenol** – dysgu am y problemau iechyd a diogelwch perthnasol, yn ogystal â'r ddeddfwriaeth allweddol a'r asesiadau risg.
- **Plannu a sefydlu coetiroedd** – wedi'i anelu at unrhyw un sy'n cael ei gyflogi i blannu a sefydlu coetiroedd.
- **Rheoli coetir ar gyfer cadwraeth** – dysgu sut i reoli coetir pan fydd cadwraeth natur yn brif nod.

(Os ydych yn cofrestru am y tro cyntaf, ac yn dymuno gwneud cais am gyllid yn y cyfnod ymgeisio mis Mai, cysylltwch â Cyswllt Ffermio cyn 5pm, ddydd Llun 23 Mai 2022.)

Am rhestr lawn o gyrsiau a/neu gymorth ar sut i wneud cais, cysylltwch â'ch swyddog datblygu lleol neu ein Canolfan Gwasanaeth ar 08456 000 813, neu ewch i:

llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant





**PARTNERIAETH
DIOGELWCH AR
FFERMYDD CYMRU**



**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**

Gweithio ar uchder

- Ceisiwch osgoi neu leihau'r amser a dreulir yn gweithio ar uchder – mae angen cynllunio ymlaen llaw, osgoi amodau tywydd gwlyb a rhewllyd, a defnyddio offer diogelwch bob tro, megis platfformau gweithio symudol sy'n codi, sgaffaldiau a dyfeisiau atal cwmpo
- Lleihau'r risg o gwmpo o beiriannau mawr fel combein trwy ddefnyddio'r ysgolion mynediad neu'r manau sefyll a ddarperir gan y gweithgynhyrchwyr bob tro
- Rhaid i bawb sy'n gweithio ar uchder gael eu hyfforddi a bod yn gymwys; hefyd, dylent ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) addas
- Os nad ydych wedi'ch hyfforddi, neu nad ydych chi'n gwybod pa gyfarpar i'w ddefnyddio, yna dylech gysylltu â chontractwr toi arbenigol

PEIDIWCH Â...

- Gweithio ar ben to bregus neu gerdded o fewn dau fetr o ardaloedd to bregus heb ei orchuddio heb ddefnyddio manau sefyll gyda chanllawiau diogelwch, harnais diogelwch addas, net diogelwch neu systemau atal neu leihau cwmpo
- Gweithio ar unrhyw loriau neu lwyfannau penagored os nad oes ganddynt ganllawiau diogelwch addas



MENTORIAID CYSWLLT FFERMIO

15 awr o wasanaethau
mentora wedi'u
hariannu'n llawn



Mae gan Cyswllt Ffermio rwydwaith cydnabyddedig o 65 mentor wedi'u lleoli ledled Cymru.

Gall mentor Cyswllt Ffermio...

- ✓ Ddarparu safbwynt annibynnol, diduedd a chyfrinachol
- ✓ Drafod eich problemau, pryderon a'ch nodau ar gyfer y dyfodol
- ✓ Ddarparu clust i wrando ar eich syniadau
- ✓ Rannu eu profiadau gyda chi, boed yn llwyddiannau neu'n fethiannau
- ✓ Eich herio i gyfiawnhau eich syniadau
- ✓ Eich cynorthwyo i adnabod problemau a chanfod datrysiadau

Er mwyn darganfod mwy am gefndir, sgiliau ac arbenigedd pob mentor, gallwch edrych dros y 'cyfeiriadur mentoriaid' manwl a geir yma:
llyw.cymru/cyswlltffermiomentora

ARLOESI AC ARALLGYFERIO CYMRU



Byddwch yn rhan o stori lwyddiant arloesi ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad...

15 / 06 / 22

Ydych chi'n dymuno arallgyfeirio eich busnes fferm?
Hoffech chi edrych ar sut y gallech wella cynaliadwyedd a phroffidoldeb
eich busnes drwy arloesi a defnyddio technoleg?

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru cyntaf erioed
yn 2019, dyma ddiwrnod allan gyda gwahaniaeth – diwrnod na fydd unrhyw
ffermwr neu goedwigwr eisiau ei golli!

Bydd Arloesi ac Arallgyfeirio Cymru yn darparu cefnogaeth, cyngor ac
arweiniad i wella eich busnes a'ch galluogi i edrych ar syniadau newydd
i wella proffidoldeb a chynaliadwyedd.

10:00-17:00

Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd

Am ragor o fanylion, ewich i wefan Cyswllt Ffermio: www.llyw.cymru/cyswlltffermio, neu cysylltwch â:
fcevents@menterabusnes.co.uk



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813